



**ADRODDIAD AR GYNNYDD Y GRANT:
GRANT CYFLAWNI PLANT A THEULUOEDD**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MANYLION Y PROSIECT:

Enw'r sefydliad Arweiniol: Mudiad Meithrin (MM)

Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol: Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

Enwau'r Partneriaid:

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)
Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (PPA Cymru)

Teitl y Prosiect: Cwlwm Yn uno Gofal Plant Cymru

Hyd y Prosiect: Tair blynedd: 1.10.2014 – 31.3.2018

Swm y Grant: £4,324,396 dros 3 blynedd

Cyfnod Adrodd: 01.10.2014 – 31.3.2015

Swm y Grant £719,260 am 6 mis



Cefndir

Mae **Cwlwm** yn dwyn ynghyd y pum mudiad mwyaf blaenllaw ym maes gofal plant yng Nghymru, er mwyn darparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau ag y bo modd i blant a theuluoedd ar draws Cymru, o fewn dull gweithredu 'system gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae **Cwlwm**, a arweinir gan Mudiad Meithrin (MM) mewn partneriaeth gyda Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru), Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar (PACEY Cymru) a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (PPA Cymru) yn dwyn ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, er mwyn delio gyda materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae, sy'n ymwneud â chynnaladwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau mewn darpariaeth gofal plant, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio, caiff datrysiadau arloesol i gyfleoedd gofal plant a chwarae hyblyg eu sicrhau, ynghyd â gofal cofleidiol er mwyn bodloni anghenion rhieni a theuluoedd ar hyd a lled Cymru.

Mae **Cwlwm** yn cynnig dull gweithredu aml-asiantaeth, integredig a dwyieithog tuag at ddatblygu, cynorthwyo, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull gweithredu cyd-gysylltiedig hwn yn sicrhau cysondeb o ran ansawdd ac effeithlonrwydd o ran cymorth ac arweiniad, gan gynnig datrysiadau arloesol ar gyfer anghenion lleol.



Crynodeb o waith **Cwlwm**:

- mae'n gweithio **ar draws Cymru gyfan** er mwyn cynnig cymorth, gan gynnwys cymorth busnes ac arweiniad a chynghori i leoliadau Gofal Plant a Chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- mae'n archwilio anghenion **datblygu y gweithlu** Gofal Plant a Chwarae, gan gydweithio er mwyn cynnig cyfleoedd i fodloni eu hanghenion hyfforddi.
- mae'n **nodi bylchau** mewn darpariaeth Gofal Plant a Chwarae ar draws Cymru, gan ddarganfod datrysiadau ar gyfer y bylchau hynny, gan gynnwys datrysiadau arloesol mewn perthynas â **natur wledig ardaloedd, tlodi a'r iaith Gymraeg**.
- mae'n cydweithio er mwyn darganfod y datrysiadau gorau ag y bo modd ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn unrhyw ardal leol.
- mae'n adolygu sialensiau ac yn darganfod datrysiadau ar gyfer y sialensiau hynny trwy gydweithio.
- mae'n cynrychioli'r sector gofal plant mewn pwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- trwy gyfrwng cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd, mae'n sicrhau **cysondeb o ran ansawdd ac effeithlonrwydd** wrth gynorthwyo a chynnig arweiniad a datrysiadau ar gyfer sialensiau.
- mae'n cydweithio er mwyn **ceisio cyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector Gofal Plant a Chwarae.
- mae'n **cydweithio** gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r cyfle i fanteisio ar ofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel.

1. Amcanion, Canlyniadau, Cyflawniadau

Amcan 1: Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r ffaith bod modd iddynt fanteisio ar gyfleoedd gofal plant a chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel

Allbwn	Canlyniad	Cyflawniad	Canlyniadau ar ôl 6 mis Mawrth 2015 (targed 50%)	
Darparu cymorth ac arweiniad i ddarparwyr gofal plant/chwarae	Mae modd i rieni/gofalwyr weithio neu gael hyfforddiant; darparir gofal i blant mewn amgylchedd diogel a hapus	Mae Cwlwm wedi darparu cymorth ac arweiniad i 6,540 o ddarparwyr gofal plant a chwarae. Mae hyn wedi cynnwys cyngor ynghylch rheoli, cyllid, rheoliadau, iechyd a diogelwch, codi arian, marchnata, recriwtio, cyflogi, gofynion rheoliadol ac ati.	Cylchoedd Meithrin (gan gynnwys gofal dydd llawn a gofal sesiynol)	542
			Gofal Cofleidiol	152
			Cylchoedd Ti a Fi	379
			Grwpiau chwarae	449
			Grwpiau Rhieni/Gofalwyr a Phlant Bach	198
			Meithrinfeydd Dydd (gan gynnwys gofal dydd llawn)	576
			Clwb Brechwast	291
			Clybiau ar ôl Ysgol	848
			Y tu allan i oriau Ysgol	23
			Clybiau Gwyliau	481
			Clybiau Penwythnos	9
			Gwarchodwyr Plant	2482
			Mamaethod	110
			Nifer y darparwyr uchod sy'n darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg	461
			Cyfanswm y darpariaethau y rhoddwyd cymorth ac arweiniad iddynt Cynnydd o 113% (heb gynnwys Dechrau'n Deg) Cynnydd o 132% mewn gwasanaethau Dechrau'n Deg	6,540

Darparu rhaglen cymorth busnes ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae	Bydd darparwyr gofal plant a chwarae yn dod yn fwy cynaliadwy	Datblygwyd yr Offeryn Asesu Busnes cynhwysfawr gan Cwlwm ac mae'n cael ei gwblhau gan groestoriad o ddarparwyr gofal plant a chwarae ar hyn o bryd (dros 2000 o ddarparwyr), er mwyn casglu gwybodaeth ar faterion busnes pwysig megis strwythurau cyfreithiol, aelodaeth, sicrhau ansawdd, rheoliadau, strwythur ariannol, diogelu, recriwtio, staffio, rheoli, marchnata a hyrwyddo. Bydd y data a fydd yn cael ei ddadansoddi ym mis Awst yn darparu gwybodaeth ddiddorol am feysydd y mae angen neilltuo cymorth ac arweiniad iddynt ar draws y sector. Bydd partneriaid Cwlwm yn datblygu cynllun gweithredu cyd-gysylltiedig o gymorth estynedig cyd-gysylltiedig. Cynigir y cymorth trwy gyfrwng ymweliadau/cysylltiadau, sesiynau mentora, cylchlythyr/cylchgronau/e-fwletinau a digwyddiadau hyfforddi/rhwydweithio.	Yn debygol o gyflawni'r targed o gasglu gwybodaeth gan 2,014 o leoliadau erbyn mis Gorffennaf 2015. Caiff y cynllun gweithredu ei gwblhau erbyn mis Medi. Cwblhawyd 73% o'r sesiynau cymorth busnes Cwblhawyd 72% o'r sesiynau mentora cymorth busnes Cwblhawyd 164% o'r cylchlythyrau/cylchgronau/E-fwletinau cymorth busnes Cwblhawyd 55% o'r digwyddiadau rhwydweithio/hyfforddiant cymorth busnes
Datblygu dull gweithredu ar y cyd er mwyn cynorthwyo'r sector gofal plant a chwarae	Mae darparwyr gofal plant a chwarae a phlant a theuluoedd yn cael budd gan gymorth cenedlaethol sy'n cael ei gyd-drefnu ar gyfer darparwyr	Mae partneriaid Cwlwm yn cyfarfod bob mis er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig er mwyn cynorthwyo darparwyr gofal plant a chwarae yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Yn ogystal â hyn, caiff momentwm ei sicrhau hefyd o ran y cyfathrebu parhaus rhwng partneriaid Cwlwm y tu allan i'r cyfarfodydd misol.	Mae Cwlwm wedi/yn <ul style="list-style-type: none"> • darparu cymorth/mentrau ar y cyd ar gyfer darparwyr- • datblygu protocol er mwyn rhannu cyfleusterau pan fo modd, megis rhannu ystafell gyfarfod/swyddfa/cyfleusterau fideo-gynadledda, darparu gwasanaeth cyfieithu, rhannu rhaglenni TG penodol ac ati. • trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau rhwydweithio rhwng cymheiriaid/hyfforddiant ar y cyd, sy'n cynnwys digwyddiadau fel Cymorth Cyntaf, Gofynion Rheoliadol, Asesu Risg, Marchnata, Recriwtio Staff, Diogelwch Bwyd ac ati. • cynllunio adnodd ar y cyd er mwyn cynorthwyo'r sector
Ceisio cyfleoedd cyllido ar y cyd	Mae darparwyr gofal plant a chwarae a phlant a theuluoedd yn cael budd gan y cymorth estynedig a ddarparir gan Cwlwm	Mae partneriaid Cwlwm wedi ymrwymo i'r gwaith o geisio cyfleoedd cyllido ar y cyd pan fo modd, ac maent yn parhau i ysgogi cyllid ychwanegol pan fo modd er mwyn cynorthwyo'r sector gofal plant a chwarae ymhellach.	Llwyddwyd i gyflawni'r targed o wneud 5 cais y flwyddyn neu 160%, ond ni fu unrhyw rai yn llwyddiannus eto. Llwyddwyd i sicrhau 38% o'r 'Cyllid ychwanegol wedi'i ysgogi'

Cydweithio er mwyn sefydlu gwasanaethau gofal plant a chwarae newydd	Mae'r holl blant a theuluoedd yn cael budd gan wasanaethau mwy integredig, gan leihau anghydraddoldeb a helpu i waredu tloedi	Mae Cwlwm wedi ymrwmo i'r cam o sefydlu gwasanaethau newydd bob blwyddyn. Gan fanteisio ar arbenigedd arbenigol pob partner, mae Cwlwm wedi cydweithio er mwyn sefydlu gwasanaethau gofal plant a chwarae integredig newydd. Sefydlwyd gwasanaethau gofal plant a chwarae newydd, gan ddarparu lleoedd gofal plant/chwarae ychwanegol.	Sefydlwyd 64% o wasanaethau gofal plant a chwarae newydd Sefydlwyd 267% o wasanaethau gofal plant a chwarae integredig newydd Datblygwyd 98% o leoedd gofal plant/chwarae ychwanegol
Cynorthwyo ddarparwyr gofal plant a chwarae i gofrestru gydag AGGCC, i wella ansawdd ac i gael sicrwydd ansawdd.	Mae plant a theuluoedd yn cael budd o'r ffaith bod y safonau gwasanaeth uchaf ag y bodd yn cael eu cyflenwi	Mae partneriaid Cwlwm yn darparu cymorth parhaus i ddarparwyr wrth iddynt gofrestru gydag AGGCC, ac maent wedi ymrwmo i'r gwaith o hwyluso digwyddiadau hyfforddi / cyfarfodydd ynghylch materion cofrestru. Mae partneriaid Cwlwm wedi datblygu rhaglen sicrhau ansawdd sy'n cynnwys gwybodaeth am 4 cynllun sicrhau ansawdd sydd ar gael ar gyfer pob math o ddarparwr gofal plant a chwarae. Mae'r holl gynlluniau yn bodloni fframwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran eu disgwyliadau o gynllun sicrhau ansawdd gofal plant yng Nghymru. Mae'r rhaglen ar gael ar wefan Cwlwm.	Cynorthwywyd 330% o'r sawl a dargedwyd i gofrestru gydag AGGCC 173% o'r lleoliadau presennol yn cofrestru gydag AGGCC 68% o leoliadau yn cael eu cynorthwyo i gofrestru gydag AGGCC 118% o'r sawl a dargedwyd wedi cyflawni SA 285% o'r sawl a dargedwyd yn gweithio tuag at SA
Cydweithio er mwyn gwella'r cyfleoedd gofal plant a chwarae ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol	Bodlonir anghenion yr holl blant a'u teuluoedd, gan gynnwys plant anabl	Mae partneriaid Cwlwm yn rheoli cynlluniau cyfeirio lleol yn uniongyrchol, gan gydweithio ar ddull gweithredu aml-asiantaeth. Mae cynlluniau o'r fath yn caniatáu i blant fanteisio ar gymorth ychwanegol trwy gyfrwng lleoedd a gynorthwyr a chymorth un i un.	Mae 74% o'r targed yn gyfeiriadau a reolir yn lleol Llwyddwyd i gyflawni 80% o'r lleoedd a gynorthwyr Darparwyd 153% o gymorth un i un Mae 247% o ddarparwyr yn cymryd rhan

Amcan 2: Mae'r gweithlu Gofal plant a chwarae yn sicrhau'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau priodol er mwyn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'r holl deuluoedd

Allbwn	Canlyniad	Cyflawniad	Canlyniadau ar ôl 6 mis Mawrth 2015 (targed 50%)
Cynnal ac uwchsgilio gweithlu sy'n meddu ar gymwysterau priodol	Mae plant a theuluoedd yn cael budd gan wasanaethau a ddarparir gan weithlu hynod o fedrus a chryf ei gymhelliant	Ar hyn o bryd, mae Cwlwm yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn paratoi Arolwg y Gweithlu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, a fydd yn casglu gwybodaeth ynghylch cymwysterau'r staff a gyflogir yn lleoliadau gofal plant a chwarae y partneriaid. Bydd y wybodaeth a gaiff ei dadansoddi yn caniatáu i bartneriaid Cwlwm nodi bylchau o ran cymwysterau a hyfforddiant, gan gyfrannu at drafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyngor Gofal Cymru a <i>Skills Active</i> ac ati.	Mae'r holiadur cymwysterau a oedd i fod yn barod erbyn mis Mawrth 2015, wedi cael ei oedi drwy gytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r targed cymwysterau yn 101% ar gyfer Lefel 2 ac uwch ar gyfer gofal plant a chwarae Llwyddwyd i gyflawni 109% o achrediau CYPOP5
Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allweddol er mwyn hyrwyddo gofal plant fel gyrfa	Caiff rhieni eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith a'u cynorthwyo i ddianc rhag tloedi	Mae Cwlwm yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allweddol yn barhaus er mwyn hyrwyddo gofal plant fel gyrfa. Mae sesiynau gwybodaeth yn cynnwys trefnu sesiynau cleientiaid Canolfan Byd Gwaith, digwyddiadau Diwrnodau Agored ar gyfer darpar hyfforddeion Lefel 3, mynychu digwyddiadau Dechrau'n Deg a 'Chymryd Rhan' ar draws Cymru.	Darparwyd 56% o'r sesiynau gwybodaeth.
Cydweithio'n agos gyda Chynghorau Sgiliau Sector	Mae safonau, cymwysterau a dysgu yn cynnig sail ar gyfer arfer proffesiynol	Mae Cwlwm yn cydweithio'n agos gyda chynghorau sgiliau sector, gan ddarparu cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd perthnasol a chydweithio'n agos er mwyn datblygu/addasu unedau a/neu adnoddau. Hyd yn hyn, datblygwyd 8 uned newydd ar y cyd gyda CGC a CACHE. Yn ogystal, mae partneriaid Cwlwm wedi cynorthwyo CGC i edrych ar lwybrau i mewn/trwy ddysgu, o fynediad i'r sector i L5/graddedig. Yn cael cyswllt gyda <i>Skills Active</i> er mwyn ailysgrifennu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae.	Mynychwyd yr holl gyfarfodydd hyd yn hyn.
Datblygu a darparu rhaglen gyd-gysylltiedig o hyfforddiant DPP	Mae modd i'r gweithlu gofal plant a chwarae fanteisio ar ystod lawn a hyblyg o gyfleoedd DPP	Mae partneriaid Cwlwm wedi coladu gwybodaeth ynghylch rhaglenni hyfforddiant sy'n bodoli eisoes, ac maent wedi datblygu rhaglen DPP Cwlwm sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar draws y sector. Mae gwybodaeth ynghylch cannoedd o gyfleoedd hyfforddi ar gael ar wefan	Cyflawnwyd 76% o ddigwyddiadau hyfforddi DPP Mynychodd 123% o ymarferwyr sesiynau DPP Mae 203% o ymarferwyr yn ymgymryd â

		Cwlwm.	DPP ar-lein
Datblygu a darparu gweithdai a chyrsgiau hyfforddi Cymraeg ar gyfer y gweithlu gofal plant a chwarae	Mae plant yn cael budd gan fwy o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu lleoliad gofal plant	Mae Cwlwm yn darparu cymorth trwy gyfrwng hyfforddiant ac adnoddau er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gyda gwahanol ganlyniadau Cymraeg. Mae dau gwrs er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg plant eisoes wedi cael eu datblygu ar gyfer lleoliadau dwyieithog yn benodol, sef Cymorth Pwrpasol ar gyfer darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a Defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad gofal plant – Chwarae Corfforol. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai ynghylch gweithgareddau Cymraeg, a oedd yn cynnwys; Sbri Diri, Miri Mawr, Blas ar Iaith, Chwarae Hapus, Hwyl gyda Chymraeg, Blas ar Makaton ac ati. Yn ogystal, mae Cwlwm wedi ymrwymo i'r cam o gynhyrchu adnoddau Cymraeg a hyd yn hyn, mae llyfr caneuon Cymraeg wedi cael ei gynhyrchu, yn ogystal â thafenni ffeithiau niferus er mwyn helpu lleoliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae partneriaid NDNA Cymru a PPA Cymru yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Uned y Gymraeg mewn Addysg ac mae Mudiad Meithrin yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Uned y Gymraeg yn y Gymuned er mwyn sicrhau cynrychiolaeth fanwl o faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Er mwyn ychwanegu gwerth i'r cymorth hwn, mae NDNA Cymru a PPA Cymru yn cael cyllid gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Un, Dau, Tri – Hwyl a Sbri – sy'n darparu hyfforddiant a chymorth i feithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y lleoliad. Mae 100% o'r ymarferwyr sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen wedi adrodd eu bod yn fwy hyderus a'u bod wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn eu meithrinfa ddydd.	<p>Cyflawnwyd 245% o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant</p> <p>Cynhaliwyd 155% o gyrsgiau er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau dwyieithog.</p> <p>Cyflawnwyd 150% o ymarferwyr mewn lleoliadau trochi</p> <p>Cynhyrchwyd 67% o adnoddau Cymraeg newydd</p> <p>Cynhaliwyd 300% o gyfarfodydd yr Uned y Gymraeg mewn Addysg</p> <p>Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd gydag Uned y Gymraeg yn y Gymuned.</p>

Amcan 3: Datblygu datrysiadau arloesol ac ymarferol er mwyn gwella cyfleoedd gofal plant a chwarae yng Nghymru

Allbwn	Canlyniad	Cyflawniad	Canlyniadau ar ôl 6 mis Mawrth 2015 (targed 50%)
Cydweithio er mwyn sefydlu modelau gofal plant a darpariaeth chwarae arloesol	Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r ffaith bod modd iddynt fanteisio ar fodolau arloesol ac ymarferol sy'n ymateb i anghenion gofal plant/chwarae	<p>Mae partneriaid Cwlwm wedi ymrwymo i'r cam o gynnal dwy astudiaeth ymchwil benodol er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth, anghenion gofal plant hyblyg rhieni a modelau gofal plant hyblyg posibl er mwyn rhoi sylw i gynladwyedd mewn ardaloedd gwledig. Hwn fydd y sail er mwyn ffurfio hyd at 3 chynllun peilot cydweithredol a 2 annodweddiadol.</p> <p>Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i gynnig cymorth i ddarparwyr i ymestyn eu gwasanaethau er mwyn cynnig gofal cofleidiol ac er mwyn cynorthwyo darparwyr mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd difreintiedig i ymestyn eu gwasanaethau. Yn ogystal, bydd Cwlwm yn cynorthwyo darparwyr i ymestyn eu darpariaeth er mwyn cynnig gofal newydd ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau i blant hŷn.</p>	<p>Mae'r gwaith yn parhau ar hwn</p> <p>Bodlonwyd y gwasanaethau estynedig gymaint â 120%</p> <p>Bodlonwyd y gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig gymaint â 150%</p> <p>Bodlonwyd yr ardaloedd difreintiedig gymaint â 338%</p> <p>Bodlonwyd gofal newydd ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau ar gyfer plant hŷn gymaint â 60%</p>
Cydweithio er mwyn gwella cyfleoedd gofal plant a chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg	Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r ffaith bod modd iddynt fanteisio ar ofal plant a gwasanaethau chwarae	Er mwyn sefydlu darpariaethau cyfrwng Cymraeg newydd, mae partneriaid Cwlwm yn nodi'r bylchau mewn darpariaethau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, trwy fanteisio ar amrywiaeth o wybodaeth am y sector.	Bodlonwyd 113% o'r targed. Sefydlwyd darpariaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys cylchoedd meithrin, cylchoedd Ti a Fi, clybiau ar ôl ysgol, clybiau Gwyliau a gwasanaeth gwarchod plant newydd
Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn hysbysu rhieni a darparwyr o'r cyfleoedd mewn perthynas â gofal plant a chwarae	Caiff rhieni a darparwyr eu cynorthwyo i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch gofal plant	<p>Mae Cwlwm wedi datblygu a sefydlu gwefan sy'n llawn gwybodaeth (www.Cwlwm.cymru / www.Cwlwm.wales)</p> <p>Tudalen ar Facebook a chyfrif Twitter fel porth er mwyn darparu cyngor, cymorth, gwybodaeth a chyfleoedd ynghylch gofal</p>	Bodlonwyd y targed hwn ac mae'n cael ei ddatblygu ymhellach yn barhaus.

		plant a chwarae. Mae gan Cwlwm raglen ddatblygu barhaus ar gyfer y wefan, er mwyn gwella ac ymestyn y wybodaeth sydd ar gael.	
Cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau a chyfleusterau arloesol ar gyfer y sector gofal plant a chwarae	Mae modd i deuluoedd, cyflogwyr ac ymarferwyr fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth a chyfleusterau	<p>Mae partneriaid Cwlwm wedi cydweithio er mwyn darparu strategaeth farchnata a chyfathrebu ar y cyd. Mae cyfleuster chwilio am swyddi gwag / ceisio swydd wedi cael ei gynnwys ar y wefan, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fanteisio ar gyfleoedd amrywiol sydd ar gael ym mhob math o ddarpariaeth gofal plant a chwarae.</p> <p>Mae partneriaid Cwlwm yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio rheolaidd ar y cyd er mwyn sicrhau bod modd i deuluoedd a darparwyr chwarae fanteisio ar gyfleusterau a gwybodaeth werthfawr.</p>	Bodlonwyd 133% o'r targed ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio

Amcan 4: Mae'r sector Gofal Plant a Chwarae yn cyfrannu at gynllunio strategol ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru

Allbwn	Canlyniad	Cyflawniad	Canlyniadau ar ôl 6 mis Mawrth 2015 (targed 50%)
Cynrychioli'r sector gofal plant a chwarae ar lefel Llywodraeth Cymru ac yn lleol	Mae gan y sector gofal plant/chwarae lais ynghylch yr holl faterion perthnasol	Mae partneriaid Cwlwm yn cynrychioli'r sector gofal plant a chwarae mewn cyfarfodydd lleol amrywiol a chyfarfodydd amrywiol o fewn Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o gyfrannu at leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, canlyniadau addysg a chanlyniadau economaidd plant sy'n byw mewn tldi. Cyflawnir hyn trwy goladu gwybodaeth trwy adroddiadau data y sector a mynychu amrywiaeth eang o gyfarfodydd.	Mynychwyd yr holl gyfarfodydd, a chyflawnwyd 88%.
Cyfrannu at ymgynghoriadau'r sector gofal plant	Mae darparwyr gofal plant a theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tldi,	Mae Cwlwm yn cyfrannu at amrywiaeth o ymgynghoriadau sector lleol, o fewn	Cyflawnwyd 200% o'r targed a

a chwarae	yn cael budd gan strategaeth gofal plant a chwarae sy'n gadarn ac sy'n arloesol	Llywodraeth Cymru ac o fewn Llywodraeth y DU, gan ymateb ar y cyd pan fo hynny'n briodol a rhannu ymatebion unigol. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cwllwm 5 digwyddiad ymgynghori ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod modd i ddarparwyr drafod a gwneud sylwadau am y newidiadau a gynigiwyd yn ddiweddar yn ymgynghoriad 'Newidiadau i Gofrestru Darpariaeth Gofal Plant yng Nghymru'.	gwnaethpwyd ymatebion ar y cyd Cyflawnwyd 111% o ymatebion unigol.
-----------	---	--	---



2. Uchafbwyntiau'r prosiect

Amcan 1: Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael budd o'r ffaith bod modd iddynt fanteisio ar gyfleoedd gofal plant a chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel

Mae Cwlwm yn parhau i ddarparu cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i **6,540 o ddarparwyr gofal plant a chwarae, sy'n gynydd o 113%** yn ystod y 6 mis cyntaf.

Mae'n debygol o gasglu data ar gyfer yr Offeryn Asesu Busnes gan **2,014 o leoliadau** erbyn mis Gorffennaf 2015

Yn anffodus, er bod y targed i geisio cyllid ar y cyd wedi bod yn 160% o'r targed, **ni fu unrhyw rai o'r ceisiadau** yn llwyddiannus.

Hyd at hyn, mae partneriaid Cwlwm wedi tynnu **cyllid ychwanegol o 38% o'r targed i mewn**. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod cyllid Awdurdodau Lleol wedi gostwng. Hwn yw'r **unig darged** sydd wedi **tangyflawni**.

Mae astudiaethau achos manwl yn darparu tystiolaeth am y math o gymorth ac arweiniad a roddwyd gan bartneriaid Cwlwm, ac effaith hyn ar y darparwyr gofal plant a chwarae. Fodd bynnag, yn ystod y 6 mis cyntaf, pan oedd y targed yn 50% o'r cyfanswm blwyddyn;

- **sefydlwyd 64% o wasanaethau gofal plant a chwarae newydd**
- **sefydlwyd 267% o wasanaethau gofal plant a chwarae integredig newydd**
- **datblygwyd 98% o leoedd gofal plant/chwarae ychwanegol**

Yn ogystal, darparir cymorth ynghylch **cofrestru gydag AGGCC** ar gyfer **darparwyr newydd a darparwyr presennol** gyda tharged o 50%.

- **330% o'r targed (50%)** wedi cael eu cynorthwyo i **gofrestru gydag AGGCC**
- **173%** o'r targed o ran lleoliadau **presennol** yn **cofrestru**.
- **68%** o'r lleoliadau a dargedwyd **yn cael eu cynorthwyo i gofrestru**.

Mae'r rhaglenni **Sicrhau Ansawdd** a gynigir gan bartneriaid Cwlwm eisoes wedi cynorthwyo nifer uwch na'r disgwyl o ddarparwyr i sicrhau statws/safonau sicrhau ansawdd gyda tharged o 50%

- **118%** o'r targed **wedi cyflawni SA**
- **285%** o'r targed yn **gweithio tuag at SA**

Mae Cwlwm yn parhau i ddatblygu cyfleoedd gofal plant a chwarae ar gyfer plant sydd ag **anghenion ychwanegol** trwy reoli **14 o gynlluniau cyfeirio lleol**.

- **cyflawnwyd 80%** o leoedd a gynorthwyir
- darparwyd **153%** o gymorth **un i un**
- **247% o ddarparwyr yn cymryd rhan**. Mae'r holl dargedau yn 50%

Amcan 2: Mae'r gweithlu Gofal plant a Chwarae yn sicrhau'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwysterau priodol er mwyn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'r holl deuluoedd

Ni chyflawnwyd y targed ynghylch yr holiadur am gymwysterau'r gweithlu, ac mae hwn wedi cael ei oedi o ganlyniad i weithgarwch ymgynghori am y cynnwys gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae hyn, fodd bynnag, y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae'r canlyniadau er mwyn darparu **cymwysterau Lefel 2 a throsodd ym maes gofal plant a chwarae yn 100%** o'r targed. Mae'r canlyniadau sy'n dangos **109% ar gyfer CYPOP5** yr un mor effeithiol.

Mae'r canlyniadau ynghylch hyfforddiant **Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn gadarnhaol iawn;**

- **cyflawnwyd 76%** o ddiwyddiadau hyfforddi **DPP**.

- **mae 123% o'r targed ar gyfer ymarferwyr** wedi mynychu sesiynau DPP.
- **mae 203% wedi ymgymryd â DPP** ar-lein. Targed o 50% ym mhob achos.

Mae Cwlwm yn parhau i ddatblygu a darparu amrywiaeth o weithdai a chyrsgiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, y maent yn berthnasol i'r gweithlu gofal plant a chwarae ac yn addas i iaith y darparwyr, ar ôl rhagori ar y targedau disgwylidig (targed o 50%)

- cyflawnwyd **245% o'r gweithgareddau Cymraeg** i blant.
- cyflawnwyd **155% o gyrsiau** er mwyn datblygu **sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau dwyieithog**.
- cynhyrchwyd **67% o adnoddau Cymraeg newydd**.

Amcan 3: Datblygu datrysiadau arloesol ac ymarferol er mwyn gwella cyfleoedd gofal plant a chwarae yng Nghymru

Mae Cwlwm wedi cychwyn ar y gwaith o **nodi bylchau yn y ddarpariaeth**, a fydd yn cynnig gwaelodlin ar gyfer yr astudiaeth ymchwil ynghylch yr angen am ofal plant hyblyg ymhlith rhieni. Yn y cyfamser, mae Cwlwm yn parhau i gynorthwyo'r sector i ddatblygu cyfleoedd gofal plant a chwarae mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig, i ymestyn eu gwasanaethau er mwyn cynnwys gofal cofleidol ac er mwyn sefydlu darpariaethau cyfrwng Cymraeg newydd.

Cyflawnwyd yr holl dargedau (Targed o 50%)

- Estynnwyd y gwasanaethau gymaint â 120%
- Gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig gymaint â 150%

- Mewn ardaloedd difreintiedig gymaint â 338%
- Bodlonwyd gofal newydd ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau ar gyfer plant hŷn gymaint â 60%

Datblygwyd gwefan Cwlwm a thudalen Cwlwm ar Facebook ymhellach, ac erbyn hyn, maent yn cynnig porth cyffrous ac arloesol er mwyn darparu cyngor, cymorth a gwybodaeth ynghylch gofal plant a chwarae. Mae eisoes yn cynnwys gwybodaeth am swyddi gwag, sicrhau ansawdd a rhaglenni hyfforddiant DPP, gan rannu newyddion ynghylch deddfwriaeth, arferion da a digwyddiadau.

Amcan 4: Mae'r sector Gofal Plant a Chwarae yn cyfrannu at gynllunio strategol ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru

Mae Cwlwm yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Sgiliau Sector ac mae'n cynnig cynrychiolaeth hanfodol ar gyfer y sector gofal plant a chwarae ar lefel leol ac ar lefel Llywodraeth Cymru trwy goladu gwybodaeth am y sector a mynychu cyfarfodydd amrywiol.

Yn ogystal, mae Cwlwm yn rhannu gwybodaeth am ymgynghoriadau er mwyn

rhannu gwybodaeth a nodi tueddiadau a welir ar draws y sector. Weithiau, mae'n briodol ymateb fel Cwlwm ac weithiau, fel sefydliadau ar wahân.

Mae partneriaid Cwlwm wedi ffurfio partneriaeth waith wych ac mae'r holl sefydliadau yn cynnig cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd unigol i'r prosiect, sy'n cynorthwyo ac sy'n darparu gofal plant fforddiadwy ac o ansawdd, gyda'r nod o leihau tlodi plant ar draws Cymru.

2. Sialensiau a Phryderon

Mae'r ymdrech i sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol yn broses barhaus i bartneriaid Cwlwm ac mae pob sefydliad yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd cyllido posibl yn rheolaidd. Yn gyffredinol, mae partneriaid Cwlwm yn pryderu ynghylch y ffaith bod lefel y cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol yn gostwng/dod i ben, a bydd hyn wrth gwrs yn cael effaith ar y cyllid ychwanegol sy'n cael ei neilltuo er mwyn cynorthwyo'r sector gofal plant a chwarae. Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn tynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer Cynlluniau Cyfeirio ac mae hyn yn peri pryder mawr i Cwlwm, gan ei fod yn golygu na fydd modd i blant y

mae ganddynt anghenion ychwanegol fanteisio ar gyfleoedd gofal plant a chwarae estynedig y maent yn haeddu eu cael.

Yn ogystal, gwelir yr her o gydweithio fel sefydliadau, gan bod gan bob un ei ffordd ei hun o weithio a 'dylanwadau' sefydliadol. Fodd bynnag, dylai hyn leihau wrth i bob sefydliad gydweithio yn y consortiwm hwn a dylent ddysgu oddi wrth ei gilydd 'gydag amser', yn enwedig wrth rannu arferion da.

4. Cyfraniadau partneriaid

Mae holl bartneriaid Cwlwm yn gwneud cyfraniad llawn ar yr holl agweddau ar y gwaith a'r cyflawniadau. Mae 2 gynrychiolydd yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd misol Cwlwm, sy'n cynnwys yr aelod o staff uwch o bob sefydliad.

Mae hyn yn caniatáu trafodaeth reolaidd ynghylch y broses o ddatblygu a chyflawni targedau Cwlwm, ac mae'n caniatáu gwaith partneriaeth cadarn hefyd. Mae'r cydweithio hwn yn caniatáu i bob sefydliad fanteisio ar eu harbenigedd eu hunain, gan gael budd o rannu gwybodaeth, adnabod tueddiadau yn y sector a nodi cyfleoedd pellach i gydweithio.

5. Astudiaethau achos

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos y cymorth a'r arweiniad a roddir gan bartneriaid Cwlwm:

Grŵp rhieni/babanod a phlant bach

3 o warchodwyr plant cofrestredig a nyrs sydd wedi sefydlu darpariaeth newydd er mwyn ymateb i'r angen yn y gymuned yn ystod 2015 ar gyfer 59 o blant. Wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf / archwiliadau DBS. Chwarae/bwyta'n iach/celf a chreffft tymhorol/pypedwaith/ caneuon. Marchnata ar-lein.

Cylchoedd Meithrin

Roedd 2 gylch meithrin ar wahân yn darparu gwasanaethau i blant ar safle un ysgol. Cynigiwyd gofal cofleidiol gan un Cylch, a fu'n llwyddiannus iawn. Roedd y cylch arall yn cynnig darpariaeth i blant iau, ond roeddent ar fin colli'r plant i Gylch Meithrin Dechrau'n Deg. Trefnwyd cyfarfod rhwng y ddau wasanaeth a phenderfynwyd uno'r ddau gylch dan bwyllgor rheoli ar y cyd. Bellach, mae'r cylchoedd yn gweithredu fel un lleoliad llwyddiannus iawn sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau. Maent yn gynaliadwy ac yn gweithio yn unol â chynllun busnes cadarn.

Meithrinfa Ddydd

Agorodd y lleoliad ym mis Ionawr 2012, gyda 5 o blant a 4 aelod o staff, ac erbyn hyn, mae ganddynt 70 o blant a thîm o 13 aelod o staff. Mae'r staff wedi dod o Raglen Twf Swyddi Cymru neu'r Recriwtiaid Ifanc. Mae rhieni wedi gofyn am ofal plant hyblyg, yn gynnar yn y bore ac ar ddydd Sadwrn. Mae'r perchnogion yn deall bod angen gofal plant mewn argyfwng ar rieni weithiau,

ac maent wedi diweddarau eu prosiectws er mwyn adlewyrchu'r gwasanaeth rhagorol hwn, ac er mis Ebrill 2015, maent yn cynnig darpariaeth gynnar, sef 7am, ac yn cau am 6pm, ac maent ar agor ar ddydd Sadwrn.

Clwb Ar Ôl Ysgol Cymunedol

Cytunodd y clwb beilota darpariaeth 'gofal chwarae' yn eu clwb gofal plant yn ystod y Gwyliau, a wnaeth agor y clwb i'r holl blant am gyfnod o 2 awr bob dydd, yn rhad ac am ddim. Roedd hyn yn rhoi cyfle unigryw i deuluoedd fanteisio ar yr un ddarpariaeth gofal plant o ansawdd ar gyfer eu holl anghenion gofal plant a chwarae, a oedd yn cynnwys gofal plant diwrnod llawn, gofal plant hanner diwrnod a 2 awr o chwarae am ddim. Er ei fod mewn ardal ddifreintiedig, mae'r gymuned wedi cael ei chalonogi gan ganlyniadau'r sesiynau y mae modd manteisio arnynt yn rhad ac am ddim, ac o ganlyniad, mae nifer o'r plant wedi symud ymlaen o fynychu'r rhain i fynychu sesiynau y telir amdanynt yn y clwb. Er nad oedd hwn yn ganlyniad a fwriadwyd ar ddechrau'r peilot, mae wedi gwella cynladwyedd parhaus y clwb.

Menter Cyfnod Sylfaen Hyblyg

Mae Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru (PPA Cymru) wedi gweithio gydag AALI Cyngor Dinas Casnewydd er mwyn peilota menter Cyfnod Sylfaen Hyblyg Llywodraeth Cymru. Mae'r peilot yn datblygu arfer 'rhannu gofal ac addysg' sy'n bodoli eisoes (h.y. yr Addysg y mae gan blant yr hawl i'w gael yn cael ei ddarparu ar draws dau ddarparwr addysg gynnar/gofal plant). Yn ogystal, mae rhai lleoliadau yn peilota oriau estynedig ar gyfer rhieni sy'n gweithio. Mae o leiaf un Feithrinfa gofal dydd llawn yn cynnig gofal o 6.00am.

6. Gwerthuso

Mae'r asesiad ynghylch effeithlonrwydd, effaith, perthnasedd a chynladwyedd Cwlwm yn cael ei werthuso gan Cwlwm yn barhaus. Cyflawnir hyn trwy benodi Cydlynnydd Prosiect Cwlwm, sy'n cael eu targedu yn benodol er mwyn asesu cyflawniadau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt a llinellau amser. Yn ogystal, mae cyfarfodydd misol Cwlwm yn caniatáu trafodaeth a gweithgarwch gwerthuso rheolaidd o waith ac effaith Cwlwm. Mae'r gwerthusiad o waith Cwlwm yn canolbwyntio ar:

1. Cynllunio

- Nodi'r effaith y dymunir i'r prosiect ei chael a sut y cyflawnir hyn
- Deall yr hyn i'w fesur, nodi'r wybodaeth ofynnol a sut i'w chasglu

2. Gwneud

- Cyflawni'r gwaith a'r effaith
- Casglu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ynghylch yr effaith

3. Asesu

- Gwneud synnwyr o'r wybodaeth a gesglir ynghylch yr effaith
- Ffurio casgliadau ynghylch yr effaith a chymharu canfyddiadau

4. Adolygu

- Cyfleu gwybodaeth ynghylch yr effaith
- Dysgu o'r canfyddiadau a'u defnyddio i wella ein gwaith

Ar hyn o bryd, mae Cwlwm yn trafod briff Effaith Gwerthuso ar gyfer gwerthusiad allanol ffurfiol o'i waith.

